

Brig y Goeden



SIWT SYR

NICK WARBURTON



SIWT SYR

NICK WARBURTON
Lluniau gan Toni Goffe



DRAKE

Trowsus Bwgan Brain



Roedd Gwil a Carys yn bwyta roli-poli jam yn y neuadd ac yn siarad am drowsus Mr Cennydd. Mr Cennydd oedd eu hathro a byddai'n gwisgo'r un trowsus i'r ysgol, ddydd ar ôl dydd.

“Maen nhw mor grychlyd a di-siâp,” meddai Carys.



“A brwnt a thrwchus,” ychwanegodd Gwil.

“Fel pâr o hen glytiau llestri.”

“Ac mae e’n eu gwisgo drwy’r amser.”

“Dwi ddim yn credu fod ganddo fe drowsus eraill.”

“Trowsus Bwgan Brain ydyn nhw,” meddai Gwil, gan fwrw ei fforc i mewn i’w roli-poli.

“Byddai’n dda ’da fi petai e’n cael rhai newydd,” ochneiodd Carys.



Yr eiliad honno daeth Trowsus Bwgan Brain ei hun i’r neuadd. Agorodd Carys ei geg yn llydan a gallai Gwil weld y roli-poli jam yn stwnsh y tu mewn iddi.

“Beth sy?” gofynnodd.

Syllodd Carys a phwyntio. Dyna lle’r oedd Mr Cennydd mewn siwt newydd sbon danlli. Siwt glaerwen heb yr un rhych ynddi. Stopiodd pawb fwyta a throi i syllu arno fe.

“Ewch ymlaen, bawb,” meddai Mr Cennydd, â’i wyneb braidd yn goch. “Ewch ymlaen i fwyta.”

“Wow!” meddai Gwil gan bwysu dros ei blat.
“Mae’n edrych mor wahanol.”

“Mae’n edrych yn drwsiadus,” meddai Carys yn bendant. “A hen bryd hefyd.”

Yn ddiweddarach yn y prynhawn, aeth y plant yn ôl i’r neuadd ar gyfer addysg gorfforol.

“Rwy’n hoffi’r siwt, syr,” meddai Carys wrth Mr Cennydd wrth iddyn nhw gerdded i mewn.

“Diolch, Carys. Mae ar gyfer y Noson Rieni, a dweud y gwir.”

“Y Noson Rieni?”



“Ie. Mae’n rhaid i fi edrych ar fy ngorau ar gyfer honno, on’d oes?”

“Ond nos Lun mae hynny, Mr Cennydd,” meddai Gwil.

“Gwn i hynny, Gwil. Rwy eisiau arfer â hi.”

Tra eu bod yn siarad, daeth Mrs Puw allan o’r gegin â phowlen o gwstard yn ei breichiau.





Cafodd gymaint o sioc pan welodd hi Mr Cennydd yn ei siwt newydd ddisglair nes iddi neidio. “Y niwlog nos!” meddai.

Gafaelodd yn un o lenni'r neuadd i'w sadio ei hun. Chwyrliodd y cwstard i'r awyr ac yn syth am Mr Cennydd.


Gwelodd Gwil beth oedd yn dod a chamodd i lwybr y cwstard. Crynodd y cwstard cyn setlo ar fest Gwil. Tawelodd pawb. Safodd Gwil yn stond, yn edrych yn drist ac yn syn. Ac wedi ei orchuddio gan gwstard oer.

“Go dda, Gwil,” meddai Mr Cennydd. “Rwy'ti wedi arbed fy siwt newydd.”

Ceisiodd Gwil wenu ond erbyn hynny roedd y cwstard yn diferu i mewn i'w siorts.

Ar ôl yr egwyl, newidiodd Mr Cennydd 'nôl i'w drowsus clytiau-sychu-llestri.

“Cadwch yn glir o hon, plis,” meddai gan hongian ei siwt newydd ar ddrws y cwpwrdd. “Cadwch yn hollol glir.”



Lliw gwyrdd hyfryd



Celf oedd gwers ola'r dydd. Roedd yn rhaid iddyn nhw baentio wynebau diddorol. Roedd Carys yn gwneud anghenfil. Rhoddodd ddiferion o waed yn ei lygaid, bollt drwy ei wddf a stwff gwyrdd yn dod allan o'i drwyn. Roedd hi'n falch o'r stwff gwyrdd, ond roedd hi wedi cymysgu gormod. Gofynnodd i Gwil a oedd e eisiau peth.

“Dydw i ddim angen stwff gwyrdd o gwbl, Carys,” meddai. “Pêl-droediwr rydw i'n ei wneud.”

“Wel, fe allai gael stwff gwyrdd yn dod allan o'i drwyn, debyg,” meddai Carys.

“Na,” atebodd Gwil. “Allai e ddim.”

“Gallet ti ei ddefnyddio fel cefndir. Fel gwair.”

“Dyw fy mhêl-droediwr i ddim yn rhedeg o gwmpas ar stwff gwyrdd o drwyn anghenfil, diolch,” meddai Gwil.

Trawodd e benelin Carys, a sarnodd y stwff gwyrdd dros y ddesg.





Ceisiodd ei atal rhag diferu ar y llawr. Yna estynnodd y tu ôl iddo a sychu ei ddwylo ar y tywel. Ond nid tywel oedd e.

“O,” meddai’n dawel. “Beth rydw i wedi ei wneud?”

Gallai Carys weld beth oedd wedi digwydd. Roedd Gwil wedi sychu ei ddwylo ar drowsus newydd Mr Cennydd.

“Rwyd ti wedi ei gwneud hi go iawn y tro hwn,” meddai. “Aiff Trowsus Bwgan Brain o’i go’n lân pan welith e hyn.”



Roedd Mr Cennydd y pen arall i’r ystafell. Edrychodd arnyn nhw a gwenu.

“Ydych chi’ch dau’n dod ymlaen yn iawn?”

“O ydyn, diolch, syr,” atebodd Carys yn fywiog.

Feiddiai hi ddim dweud y gwir wrtho.

Gafaelodd mewn darn o bapur a dechrau rhwbio’r marciau gwyrdd.

“Y mwlsyn,” meddai Gwil. “Rwyd ti’n eu gwneud yn waeth. Maen nhw ddwywaith eu maint erbyn hyn.”

Roedden nhw. Edrychodd Carys ar Gwil a meddwl yn galed.


“Does dim ond un peth amdani,” dywedodd hi.

“Beth yw hynny?”

“Eu rhoi nhw ’nôl ar y bachyn. Yna gallwn ni eu glanhau nhw ar ôl yr ysgol.”

Pan ddaeth Mr Cennydd draw i edrych ar eu lluniau, roedd y siwt yn dal i siglo’n araf ar ddrws y cwpwrdd.

“O,” meddai. “Rwy’n hoffi’r arlliw gwyrdd yna, Carys. Mae’n lliw hyfryd.”



Ar ddiwedd y prynhawn bu Mr Cennydd yn stwna o gwmpas am hydoedd heb adael y plant ar eu pennau eu hunain am eiliad. Rhoeson nhw’r cadeiriau un ar ben y llall mor araf ag y gwnaeth unrhyw un erioed. Yna, o’r diwedd, crwydrodd e i ffwrdd i’r ystafell athrawon.

Saethodd Gwil at y sinc a throi’r tapiau. Gafaelodd Carys yn y trowsus a’u taflu ato ar draws yr ystafell. Fe’u daliodd a’u taflu i’r sinc. Bachodd botel blastig a gwasgu’r cynnwys yn galed ar y trowsus.



“Beth rwyt ti’n ei wneud?” gwaeddodd Carys.

“Hylif golchi llestri,” atebodd Gwil. “Bydd yn tynnu’r staen allan.”

“Nid hylif golchi llestri yw e, Gwil. Glud yw e.”

Ar y gair, clywon nhw Mr Cennydd y tu allan i’r drws. Daeth i mewn yn gwisgo ei anorac a’i glipiau seiclo. Safai Carys a Gwil ochr yn ochr o flaen y sinc.

“O,” meddai Mr Cennydd. “Yma o hyd?”

“Rydyn ni bron ar ben, syr,” atebodd Carys a cheisiodd wenu.

“Wel, mae’n edrych yn daclus i fi. Dylwn i fynd adre nawr.”

Aeth draw at y siaced ar ddrws y cwpwrdd.

“Peidiwch,” meddai Gwil.

“Peidiwch beth?”

“Peidiwch â mynd â’r siwt.”

“Pam lai?”

“Achos...achos...”



“Achos gallech chi ei maeddu,” eglurodd Carys.
“Bydd yn fwy diogel os gadewch chi hi yn y fan hyn. Cytuno, Gwil?”

Nodiodd Gwil. Roedd golwg ddrwslyd ar Mr Cennydd. Roedd ei law hanner ffordd at ei siaced.

“Gallai ddisgyn oddi ar eich beic,” ychwanegodd Carys. “A glanio ar bentwr o sbwriel neu rywbeth.”

Symudodd Mr Cennydd ei law.

“Wel,” meddai, “efallai eich bod chi’n iawn.

Dydw i ddim eisiau rhagor o ddamweiniau.”



Wedi iddo fe adael, rhoeson nhw'r trowsus mewn bag plastig a'i gario'n llechwraidd i dŷ Gwil.

Taflon nhw'r trowsus i'r sinc a'u boddi mewn dŵr poeth a phowdwr golchi. Sgwrion nhw'r trowsus â brws caled, bar o sebon a math o weiren. Cododd ewyn o'r swigod cyn belled â'u penelinoedd.

“Ydi hyn yn gweithio?” gofynnodd Carys.



Symudodd Gwil y swigod o'r neilltu ac edrychodd i mewn i'r sinc.

"Mae'n dal yn wyrdd," ochneiodd.

Tywallton nhw hylif golchi llestri, cwyr a glanhaydd lloriau i mewn i'r sinc, ond doedden nhw ddim yn gweithio ychwaith.

"Efallai y dylen ni eu corddi rywffaint fel mewn peiriant golchi," meddai Gwil.

Felly rhedon nhw allan a cholbio'r trowsus i fyny ac i lawr ar lwybr gardd Gwil. Ond y cyfan a wnaeth hynny oedd codi mwy o faw. Ac roedd Carys yn credu eu bod yn dechrau crebachu.

"Does ond un peth amdani," meddai.

"Beth ydi hynny?"

"Mynd â nhw at y sych-lanhawyr."



Yr arwr



Dydd Sadwrn oedd hi drannoeth. Daliodd Carys a Gwil y bws cyntaf i'r dref. Eisteddai'r trowsus rhyngddynt ar y set, wedi eu lapio'n dynn mewn bag plastig. Prin y gallai Carys edrych arnyn nhw.

Arhoson nhw nes bod y siop sych-lanhau yn wag cyn cerdded i mewn. Gwenodd Carys ar y ferch a gwenodd y ferch yn ôl.

“Y trowsus, Gwil,” meddai Carys.

“Beth amdanyn nhw?”

“Rho nhw i fi.”


“Fedra i ddim.”

“Pam lai?”

“Achos maen nhw 'da ti.”

“Nac ydyn. Gen ti maen nhw.”

Safodd y ddau yn syllu ar ei gilydd am eiliad neu ddwy. Yna meddai Gwil mewn llais tawel, “Carys, maen nhw ar y bws o hyd.”



Dair awr yn ddiweddarach, yn flinedig ac wedi syrffedu, cyrhaeddodd nhw'r orsaf fysiau. Cerddon nhw i fyny ac i lawr nes gweld eu bws nhw. Roedd wedi ei barcio yng nghornel yr iard, â dwy droed i'w gweld oddi tano.

"Esgusodwch fi," meddai Carys wrth y traed, "gadawon ni rywbeth ar eich bws chi y bore 'ma."

Symudodd y traed a safodd dyn. Sychodd ei ddwylo ar glwtyn seimllyd.

"Beth oedd e?" meddai.



"Pâr o drowsus," meddai Gwil.

"Na," atebodd y dyn. "Dydw i ddim wedi gweld unrhyw drowsus ar y bws hwn ar wahân i'r rhai roedd pobl yn eu gwisgo."

Siglodd ei ben a thafu'r clwtyn seimllyd i focs. Wrth iddo hwylio drwy'r awyr, ymddangosodd coes o'r bwndel di-raen. Coes â staen gwyrdd arni.

"Dyna nhw!" meddai Carys.

"Wel, wel, wel," meddai'r dyn. "Sylwais i ddim ar reina o'r blaen."



Cododd Gwil y trowsus o'r bocs â sbaner. Fe'u daliodd i fyny er mwyn edrych yn fwy manwl arnyn nhw.

"O diar," meddai. "Maen nhw'n waeth nag erioed."

Ebychodd Carys.

"Does ond un peth amdani nawr," meddai hi.

"Beth ydi hynny?"

"Rhaid inni gyfaddef."

Fore Llun, cyrhaeddodd Carys a Gwil yr ysgol yn gynnar. Sleifion nhw i mewn i'r ystafell ddosbarth a thynnu'r trowsus o'r bag.

Gwelon nhw'r oel o'r bws a'r baw o ardd Gwil. Gwelon nhw'r glud a'r paent gwyrdd. Edrychon nhw ar ei gilydd ac ochneidio.

"Rhaid inni wneud hyn," meddai Carys. "Rhaid inni ddweud y gwir."

Yna rhoeson nhw'r trowsus yn ôl ar y bachyn a mynd i chwilio am Mr Cennydd.

Daethon nhw o hyd iddo yn y neuadd.

"Carys, Gwil," meddai Mr Cennydd dan wenu. "Beth yw ystyr hyn?"

"Eich siwt, Mr Cennydd," meddai Carys yn ddewr. "Mae 'da ni rywbeth i'w ddweud wrthoch chi."



Ond cyn y gallai hi ddweud yr un gair arall, rhuthrodd Mrs Puw i mewn i'r neuadd a gafael ym mraich Mr Cennydd.

“Sglodion! Sglodion!” sgrechiodd.

“Dim diolch, Mrs Puw,” atebodd Mr Cennydd. “Mae'n rhy gynnar yn y bore i fwyta sglodion.”

“Na, na, Mr Cennydd. Y sglodion yn y gegin. Maen nhw ar dân!”

“Beth?”

Brysiodd Mr Cennydd at ddrysau'r gegin a'u gwthio ar agor. Rholiodd cwmwl o fwg glas i'r neuadd.



“Nefoedd yr adar!” meddai gan gamu 'nôl.

“Taflwch ddŵr arno fe, syr!” gwichiodd Gwil.

“Fedrwn ni ddim gwneud hynny,” eglurodd Mr Cennydd. “Bydd dŵr yn gwneud pethau'n waeth. Mae angen lliain neu rywbeth arna i i dagu'r fflamau.”

Yna gwelodd y siwt yn hongian ar ei bachyn o fys Carys.





“Rwy’n credu mai ond un ateb sydd, Mr Cennydd,” meddai Carys a gafaelodd Mr Cennydd yn y siwt.

Wrth gwrs, cafodd y siwt ei difetha. Trodd yn bentwr blêr o fwg a sailm. Ceisiodd Carys ddweud wrth Mr Cennydd am y staen gwyrdd a sut y bu’r ddau yn ceisio ei lanhau. Ond doedd Mr Cennydd ddim wir yn gwranddo.

“Dim ots,” meddai drosodd a thro. “Dim ots am hynny.”

Mr Cennydd oedd arwr y dydd, felly roedd yn reit falch ohono’i hun. Addawodd y pennaeth siwt arall newydd sbon iddo ac roedd yn falch o hynny hefyd.


“Go dda wir,” meddai Mr Cennydd. “Galla i gael un wen lachar, neis.”

“O, peidiwch â gwneud hynny,” meddai Carys yn gyflym.

“Ond pam lai?”

“Wel, ryn ni’n meddwl y byddai gwyrdd yn gweddu’n well ichi. On’ d ydyn ni, Gwil?”

“Llawer yn well,” cytunodd Gwil. “Rydyn ni’n credu bod gwyrdd yn lliw hyfryd.”



Am yr awdur

Pan oeddwn i'n athro, roeddwn i'n mwynhau drama a darllen llyfrau'n uchel gyda phlant. Roedd hyn yn fy ysgogi i ysgrifennu ac ers hynny rwyf wedi ysgrifennu nifer o sgriptiau ar gyfer y radio, y llwyfan a'r teledu - a thri ar ddeg o lyfrau plant. Dydw i ddim yn cofio gwisgo siwt wen erioed yn yr ysgol. Byddai hynny yn gofyn am drafferth.

Rwy'n mwynhau darllen, bron unrhyw beth sy'n ymwneud â chriced, a seiclo o gwmpas Caergrawnt, lle rydw i'n byw gyda fy nheulu.



Llyfrau Brig y Goeden yng Ngham 11:

Fflaniau'n Fflio gan Nick Warburton

Anodd eu Plesio gan Nick Warburton

Siwt Syr gan Nick Warburton

Ffion a'r Draenogod gan John Coldwell

Clustiau Rhyfeddol Owen Bowen gan David Cox ac Erica James

Cynllun Cyfrowys Sara gan John Coldwell

Esgidiau Ymarfer Peryglus gan Susan Gates

Ieu a Dei ar Waith gan Nick Warburton

Cewri Carys gan Nick Warburton

Cyfle Mawr Manon gan John Coldwell



Coeden
Ddarllen
Rhydychen

Cam 11

SIWT SYR

“Wow!” medd Gwil. “Rwy’n hoffi eich siwt, syr,” medd Carys wrth eu hoff athro. Mae siwt Mr Cennydd yn newydd iawn ac yn wyn iawn. Ond all y ffrindiau drwsio’r difrod a wneir yn y wers gelf? Ac a ddylen nhw ddweud y stori i gyd wrth Mr Cennydd?



ISBN 0-86174-450-0



9 780861 744503

ISBN 0 86174 450 0

DRAKE